

Adolygiad o Gynnydd gyda Chodio Clinigol

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Ebrill 2026

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi hwn dan adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Gallwch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir a rhaid i chi beidio â gwneud hynny mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid i'r deunydd gael ei gydnabod fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd y mae'r hawlfraint ynddo'n eiddo i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Os oes arnoch angen unrhyw help gyda'r ddogfen hon

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch neges e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – fe ymatebwn ninnau yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych chi.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

Cynnwys

Ciplun archwiliad	4
Ffeithiau a ffigyrau allweddol	7
Ein canfyddiadau	8
Argymhellion	19
Atodiadau	22
1 Ynglŷn â'n gwaith	23
2 Argymhellion blaenorol	26
3 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn	29
4 Ymateb y rheolwyr	30
Amdanom ni	36

Ciplun archwiliad

Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

- 1 Fe wnaeth yr adolygiad hwn asesu cynnydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (y Bwrdd Iechyd) o ran gweithredu'r argymhellion o'r adolygiadau o godio clinigol a gynhaliwyd gennym yn 2014 a 2019. Fe wnaethom hefyd archwilio'r camau gweithredu y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd i wella perfformiad codio clinigol.

Pam fod hyn yn bwysig

- 2 Mae codio clinigol yn trosi gwybodaeth am ofal claf yn godau cenedlaethol a rhyngwladol safonedig, a ddefnyddir ar gyfer gofal cleifion mewnol a gofal cleifion allanol. Mae'r codau hyn o gymorth gyda chyllido ysbytai, cynllunio eu gwasanaethau, monitro eu perfformiad, archwilio clinigol, ac asesiadau o ansawdd ac effeithiolrwydd. Felly mae codio clinigol cywir ac amserol yn hanfodol ar gyfer gofal cleifion effeithiol ac i sicrhau bod gwasanaethau iechyd yn rhedeg yn effeithlon.
- 3 Canfu ein Hadolygiad o Godio Clinigol yn 2014, er bod y Bwrdd Iechyd yn dangos ymrwymiad cryf i godio clinigol, fod gwendidau mewn trefniadau rheoli, cofnodion meddygol, ac ymgysylltiad â staff clinigol yn effeithio ar berfformiad. Canfu ein Hadolygiad Dilynol yn 2019 welliannau yn ansawdd data ac yn y modd y'i defnyddir, ond daeth i'r casgliad bod angen rhagor o waith i ymdrin yn llawn â'r argymhellion a wnaethom yn 2014. O'r 25 o argymhellion a wnaed yn 2014, roedd 16 yn dal heb gael eu gweithredu yn 2019, ac fe wnaethom ni un argymhelliad newydd (gweler **Atodiad 2**).

Yr hyn yr ydym wedi'i ganfod

- 4 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud peth cynnydd ers ein hadolygiad dilynol diwethaf, ond mae nifer o faterion hirsefydlog yn dal i fodoli.
- 5 Mae sefydlogrwydd y gweithlu yn y Tîm Codio Clinigol wedi gwella gyda chymorth trefniadau rheoli mwy eglur a chyfleoedd datblygu staff. Mae staff hefyd yn dweud bod diwylliant tîm cefnogol yn bodoli. Fodd bynnag, mae nifer sylweddol o uwch swyddi'n dal i fod yn wag, ac mae gweithgareddau allweddol megis dilysu, archwilio a hyfforddiant yn dal i ddibynnu ar nifer fach o unigolion. Mae'r Llawlyfr Polisi a Gweithdrefn Codio Clinigol wedi dyddio ac nid yw'n adlewyrchu trefniadau gweithrediadol cyfredol mwyach.
- 6 Mae cofnodion meddygol yn dal i fod yn rhwystr mawr i godio clinigol amserol a chywir. Er bod y defnydd o gofnodion dros dro wedi lleihau a bod mynediad wedi gwella mewn rhai meysydd, mae problemau'n dal i fodoli gydag ansawdd cofnodion, oedi cyn coladu, tracio anghyson a dibyniaeth barhaus ar gofnodion papur.
- 7 Mae ymwybyddiaeth y Bwrdd o godio clinigol wedi cael ei chynnal ac fe geir ymrwymiad i wella. Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r oruchwyliaeth gydag adroddiadau'n cynnwys ffocws cul ar dargedau Llywodraeth Cymru. Nid oes rhyw lawer o esboniad o'r defnydd o ddata wedi'i godio ac mae goruchwyliaeth gan bwyllgorau'n aneglur. Er bod amlygrwydd y Tîm Codio Clinigol wedi gwella, cyfyngedig yw ymgysylltiad clinigol o hyd.
- 8 Nid yw perfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn mesurau a thargedau codio clinigol Llywodraeth Cymru wedi dangos gwelliant parhaus ac mae'n dal i amrywio dros amser. Er bod ystod o gamau gweithredu'n mynd rhagddynt, nid oes cynllun eglur, cydgysylltiedig i lywio a chynnal gwelliant hirdymor.

Yr hyn yr ydym yn ei argymell

- 9 Rydym wedi gwneud chwe argymhelliad newydd, sy'n disodli'r holl argymhellion sy'n dal yn weddill o'r adolygiadau a gynhaliwyd gennym yn 2014 a 2019. Mae'r argymhellion yn canolbwyntio ar y canlynol:
- gwella dysgu ar y cyd a chydweithio rhwng y ddau dîm codio clinigol;
 - diweddarau'r Llawlyfr Polisi a Gweithdrefn Codio Clinigol, gyda ffocws ar gydgyfrifoldeb rhwng y tîm codio a gwasanaethau clinigol;
 - gwella amlygrwydd codio clinigol i'r Bwrdd a'i ddealltwriaeth yntau amdano;
 - cyflwyno model partner busnes i gryfhau ymgysylltiad clinigol; a
 - datblygu cynllun codio clinigol i ymdrin â heriau yn awr ac yn y dyfodol.

Ffeithiau a ffigyrau allweddol

O'r 17 o argymhellion a oedd yn dal heb eu gweithredu o'r adolygiadau a gynhaliwyd gennym yn 2014 a 2019, mae tri wedi cael eu cwblhau, mae tri ar y gweill, ac fe wnaed cynnydd cyfyngedig gydag 11. Mae'r holl argymhellion sy'n weddill wedi cael eu disodli gan argymhellion newydd.

Ym mis Rhagfyr 2025, dim ond 66.3% o gyfnodau oedd wedi cael eu codio o fewn mis i ryddhau claf, sydd ymhell islaw'r targed o 95%. Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro oedd y bwrdd iechyd â'r perfformiad isaf yn y mesur hwn ledled Cymru ar y pryd.

Ym mis Chwefror 2026, dim ond 21.8% o wallau codio gafodd eu cywiro erbyn terfyn amser yr adroddiad misol nesaf, sydd ymhell islaw'r targed o 90%.

Meddygaeth gyffredinol, bydwreigiaeth a gwasanaethau pediatrig oedd â'r nifer fwyaf o gyfnodau heb eu codio wedi'u cofnodi.

Mae wyth uwch swydd yn y Tîm Codio Clinigol yn wag ar hyn o bryd – Rheolwr Codio Clinigol, Rheolwr Hyfforddiant a Chydymffurfio, a chwe Uwch Godydd Clinigol.

Ein canfyddiadau

Gweithredu argymhellion blaenorol

Er bod rhai camau cadarnhaol wedi cael eu cymryd i wella'r gwasanaeth, mae nifer o faterion yn dal heb eu datrys, sy'n dal i effeithio ar berfformiad a sicrwydd

Adnoddau codio clinigol

- 10 Fe wnaeth ein hadolygiadau blaenorol amlygu gwendidau o ran rheoli, sefydlogrwydd a chapasiti goruchwyllo yn y tîm codio clinigol. Ers hynny, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cwblhau strwythur ei dîm codio clinigol, ac mae trefniadau rheoli'n fwy eglur. Ym mis Medi 2023, fe symudodd y tîm hefyd o'r Gyfarwyddiaeth Gwybodaeth Iechyd a Digidol i'r Bwrdd Clinigol Diagnosteg a Therapiwteg Glinigol. Roedd y newid hwn wedi'i fwriadu i godi proffil codio clinigol a darparu trefniadau llywodraethu, strwythur a goruchwyliaeth eglurach.
- 11 Mae creu swydd Rheolwr Codio Clinigol Cynorthwyol yn 2025 wedi lleihau rhai pwysau gweithrediadol a arferai gael eu hamsugno gan y Pennaeth Codio Clinigol. Fodd bynnag, mae nifer o uwch swyddi eraill sydd wedi'u bwriadu i ddarparu goruchwyliaeth yn dal i fod yn wag (gweler **Arddangosyn 1**). Mae'r rhain yn cynnwys rôl y Rheolwr Codio Clinigol, rôl yr Hyfforddwr a Rheolwr Cydymffurfio, a chwe o'r saith rôl Uwch Godydd Clinigol. O ganlyniad, mae capasiti rheoli o fewn y tîm yn dal i fod yn gyfyngedig, sy'n cyfyngu ar ei allu i ganolbwyntio ar gynllunio strategol, gwella gwasanaethau, a chydweithio. Mae'r sefyllfa hon yn lleihau cydnerthedd y gwasanaeth ac yn cynyddu'r risg o ddirywiad pellach mewn perfformiad.

Arddangosyn 1: rolau a swyddi gwag yn y tîm codio clinigol

	Nifer y swyddi yn y strwythur	Nifer y swyddi gwag
Pennaeth Codio Clinigol	1	0
Rheolwr Codio Clinigol	1	1
Rheolwr Codio Clinigol Cynorthwyol	1	0
Hyfforddwr a Rheolwr Cydymffurfio	1	1
Uwch Godydd Clinigol	7	6
Codydd Clinigol	7	0
Codydd dan Hyfforddiant	11	0
Swyddog Cymorth	4	0
Cyfanswm	33¹	8

Ffynhonnell: Data a ddarparwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

- 12 Mae codio clinigol effeithiol yn dibynnu ar drefniadau dilysu a sicrhau ansawdd cadarn. Er bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal, yn arbennig ar gyfer gwaith a gwblhawyd gan godwyr dan hyfforddiant, mae'r trefniadau hyn yn anffurfiol i raddau helaeth, gan ddibynnu ar nifer fach o staff profiadol â chapasiti cyfyngedig. Roedd y Bwrdd Iechyd yn bwriadu recriwtio Archwilydd Codio Clinigol achrededig a Hyfforddwr a Rheolwr Cydymffurfio. Fodd bynnag, oherwydd heriau recriwtio, mae'r swyddi hyn yn dal yn wag. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu asesu dichonoldeb recriwtio i'r rolau hyn fel rhan o'r adolygiad o weithlu'r tîm. Mae hyn yn golygu nad yw prosesau dilysu'n sefydlog nac yn gyson eto, gan gyfyngu ar sicrwydd ynghylch ansawdd data.

¹ Y cyfanswm Cyfwerth ag Amser Llawn (CagALI) ar gyfer codio clinigol yw 32.46.

- 13 Mae recriwtio a chadw staff codio clinigol yn dal i fod yn gryn her. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi colli nifer o staff i Ymddiriedolaethau'r GIG yn Lloegr gan eu bod yn cynnig cyflogau uwch, yn gweithredu cofnodion meddygol digidol, ac yn darparu mwy o gyfleoedd i weithio gartref ar gyfer codwyr. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau i ymdrin â hyn, gan gynnwys buddsoddi mewn staff asiantaeth i gynorthwyo gyda gwaith ar ôl-groniadau. O ganlyniad, mae sefydlogrwydd y gweithlu wedi gwella ac mae staff bellach yn dweud bod diwylliant y tîm yn gefnogol, bod trefniadau gweithio hyblyg wedi gwella, a bod y strwythur rheoli'n fwy eglur. Siaradodd staff yn gadarnhaol am symudiad y tîm i mewn i'r Bwrdd Clinigol Diagnosteg a Therapiwteg Glinigol hefyd. Fodd bynnag, os bydd uwch swyddi gwag yn dal heb eu llenwi, bydd y tîm yn dal i fod heb y capasiti y mae ei angen i ymdopi â phwysau a gwneud gwelliannau parhaus. Ceir risg y bydd hyn yn tanseilio cynaliadwyedd y cynnydd diweddar.

Hyfforddi a datblygu staff

- 14 Canfu ein hadolygiad dilynol yn 2019 nifer o wendidau o ran hyfforddi a datblygu staff. Roedd y rhain yn cynnwys bod codwyr yn peidio â chylchdroi rhwng arbenigeddau, diffyg eglurder ynghylch hyfforddiant a sefydlu, a thimau codio'n peidio â chael cyfarfodydd rheolaidd i rannu gwersi a ddysgwyd.
- 15 Ers hynny, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud rhai gwelliannau. Mae wedi mabwysiadu dull 'tyfu eich talent eich hun' o ddatblygu staff codio ac mae wedi cyflwyno cymhwyster codio clinigol mewnol newydd, y mae pedwar codydd wedi'i gwblhau hyd yma. Mae gan nifer o aelodau eraill o'r tîm ddiddordeb mewn cwblhau'r cymhwyster i gefnogi eu datblygiad gyrfa hefyd. Mae'r tîm hefyd wedi datblygu diwylliant mentora, gyda chymorth ar gael y tu hwnt i godwyr dan hyfforddiant. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi adolygu sut y dyrennir arbenigeddau ar draws y tîm. Mae hyn wedi helpu i ehangu profiad a gwella trefniadau cyflenwi pan fo staff yn absennol. Fe wnaeth codwyr a gymerodd ran yn ein grŵp ffocws ni ddisgrifio tîm cefnogol a chydweithredol, gyda chyfleoedd da i gamu ymlaen.

- 16 Fodd bynnag, cyfyngir ar y cyfleoedd hyn gan gapasiti cyfyngedig y tîm. Mae hyfforddiant, mentora a chymorth yn dibynnu'n fawr ar nifer fach o godwyr profiadol, ac mae trefniadau'n dal yn anffurfiol i raddau helaeth. Mae'r ddibyniaeth hon ar nifer fach o godwyr profiadol yn cyfyngu ar gysondeb trefniadau hyfforddi a datblygu a'u gallu i dyfu yn unol â'r anghenion. Ceir cyfle, felly, i eglurhau a ffurfioli disgwyliadau ar gyfer hyfforddi a datblygu, gan gynnwys trefniadau mentora a chylchdroi rhwng arbenigeddau, trwy ddiweddaru'r Llawlyfr Polisi a Gweithdrefn Codio Clinigol (gweler **paragraff 20**).
- 17 Mae cynllun y Bwrdd Iechyd i recriwtio Hyfforddwr a Rheolwr Cydymffurfio Codio Clinigol wrthi'n cael ei adolygu. Mae staff o'r farn bod y rôl hon yn hollbwysig i gryfhau trefniadau hyfforddi a gwella perfformiad y tîm ar y cyfan.
- 18 Cyflawnir codio clinigol gan ddau dîm ar wahân, y naill yn Ysbyty Athrofaol Cymru a'r llall yn Ysbyty Athrofaol Llandochoau, y mae'r ddau ohonynt yn cael eu rheoli gan y Pennaeth Codio Clinigol. Er bod y timau'n gweithio'n annibynnol, ceir rhywfaint o gydweithio. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynnal cyfarfodydd tîm ar y cyd, ac mae cyfle i greu cyfleoedd mwy ffurfiol i rannu gwersi a safoni arfer.

Polisi a gweithdrefn

- 19 Canfu ein hadolygiad yn 2019 nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi diweddaru ei Bolisi Codio Clinigol.
- 20 Ers hynny, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyhoeddi Llawlyfr Polisi a Gweithdrefn Codio Clinigol newydd ym mis Tachwedd 2021. Fodd bynnag, nid yw'r Llawlyfr Polisi a Gweithdrefn Codio Clinigol wedi cael ei adolygu na'i ddiweddaru ers mis Tachwedd 2022. Felly, mae'r polisi a'r llawlyfr wedi dyddio ac nid ydynt yn adlewyrchu trefniadau rheoli cyfredol na strwythur diwygiedig y Tîm Codio Clinigol mwyach. O ganlyniad, nid yw'n darparu deunydd cyfeirio eglur na dibynadwy i staff na'r gwasanaethau y mae'r tîm yn gweithio gyda hwy.

- 21 Mae diweddarau'r polisi a'r weithdrefn yn gyfle i eglurhau sut y mae codio clinigol yn gweithio. Dylai'r fersiynau diwygiedig o'r polisi a'r weithdrefn nodi'n glir beth yw'r rolau, cyfrifoldebau a disgwyliadau ar gyfer y tîm codio clinigol a gwasanaethau clinigol. Byddai hyn yn ategu arfer mwy cyson, atebolrwydd mwy eglur a threfniadau gweithio mwy effeithiol ar draws y Bwrdd Iechyd. Unwaith y byddant wedi'u diweddarau a'u cymeradwyo, dylai'r polisi a'r weithdrefn gael eu cyfleu'n glir i'r holl wasanaethau clinigol.

Cofnodion meddygol

- 22 Canfu ein hadolygiad dilynol yn 2019 fod problemau parhaus gyda chofnodion meddygol yn dal i effeithio ar amseroldeb a chywirdeb codio clinigol. Roedd y materion hyn yn cynnwys defnyddio cofnodion dros dro, anawsterau tracio nodiadau achosion, ansawdd gwael cofnodion, ac oedi wrth gael mynediad at gofnodion, gan gynnwys Uned Canser yr Arddegau.
- 23 Ers hynny, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud rhai gwelliannau. Mae'r defnydd o gofnodion meddygol dros dro wedi lleihau, ac mae mynediad at gofnodion Uned Canser yr Arddegau wedi gwella. Mae adleoli'r tîm Codio Clinigol i Ysbyty Athrofaol Cymru wedi gwella mynediad at gofnodion papur hefyd.
- 24 Fodd bynnag, mae ansawdd ac argaeledd cofnodion meddygol yn dal i fod yn rhwystr sylweddol i godio clinigol amserol a chywir. Mae cofnodion yn dal i fod ar bapur i raddau helaeth, ac mae codwyr yn dal i brofi oedi oherwydd dogfennaeth goll, llawysgrifen wael, nodiadau cleifion wedi'u cymysgu, a phwysau storio. Mae oedi wrth goladu cofnodion meddygol, sy'n gysylltiedig â chapasiti cyfyngedig y tîm coladu, yn cyfrannu at ôl-groniadau ac yn arafu'r broses godio.² Mewn rhai achosion, mae wardiau'n gofyn am gofnodion yn ôl cyn bod y broses godio wedi cael ei chwblhau, sy'n achosi rhagor o oedi cyn ei chwblhau.

² Coladu cofnodion meddygol yw'r broses o ddwyn ynghyd yr holl ddogfennau ar gyfer cyfnod gofal claf mewn un cofnod cyflawn, trefnus, fel y gellir eu defnyddio ar gyfer gofal, rheoli cofnodion, a chodio clinigol.

- 25 Mae ansawdd cofnodion meddygol yn dal i fod yn anghyson, ac nid oes gan y Bwrdd lechyd system eglur i fynd ati fel rhan o'r drefn arferol i fonitro ansawdd cofnodion. Nid yw wedi mabwysiadu safonau Coleg Brenhinol y Meddygon ar gyfer cadw cofnodion meddygol nac wedi hyfforddi staff clinigol ar bwysigrwydd cofnodion o ansawdd da ac effeithiau ehangach hynny.
- 26 Mae'r Tîm Codio Clinigol yn defnyddio'r System Gweinyddu Cleifion (PAS) i dracio cofnodion meddygol, ond mae defnydd o'r system yn anghyson ar draws gwasanaethau. Mewn rhai achosion, nid yw cofnodion yn cael eu hychwanegu at y System Gweinyddu Cleifion nes eu bod yn cyrraedd y Tîm Codio Clinigol, sy'n cyfyngu ar amlygrwydd ac yn achosi oedi wrth godio. Mae'r materion hyn i'w priodoli'n rhannol i hyfforddiant cyfyngedig a'r defnydd o systemau digidol lluosog ochr yn ochr â'r System Gweinyddu Cleifion.
- 27 Mae'r modd y cwblheir crynodebau rhyddhau'n dal i fod yn anghyson hefyd ac yn dal i gyfyngu ar godio clinigol amserol a chywir. Mae rhai crynodebau rhyddhau'n anghyflawn pan ydynt yn cael eu hanfon i gael eu codio, tra nad yw eraill yn cael eu cwblhau o gwbl. Gall pwysau gweithrediadol ar staff clinigol a defnyddio systemau digidol lluosog, gan gynnwys crynodebau rhyddhau electronig, fod yn ffactorau sy'n cyfrannu.
- 28 Byddai mwy o ddigideiddio'n gwella gofal cleifion ac o gymorth gyda chodio clinigol trwy wneud cofnodion meddygol yn fwy eglur, yn fwy cyflawn ac yn haws cael mynediad atynt. Yn wir, mae strategaeth hirdymor y Bwrdd lechyd yn cynnwys ymrwymiad y bydd y sefydliad yn dod yn gwbl ddi-bapur erbyn 2035.³ Fodd bynnag, er bod rhai gwasanaethau, gan gynnwys mamolaeth ac offthalmoleg, wedi dechrau digideiddio eu cofnodion, araf fu'r cynnydd, ac mae'r rhan fwyaf o gofnodion meddygol yn dal i fod ar bapur. Rydym yn cynnal adolygiad ar wahân o drawsnewid digidol yn y Bwrdd lechyd ar hyn o bryd a byddwn yn gwneud sylwadau ar wahân ar Reoli Cofnodion Electronig fel rhan o'r gwaith hwnnw.

³ [Strategaeth Llunio Ein Llesiant i'r Dyfodol](#)

Ymgysylltiad y Bwrdd

- 29 Canfu ein hadolygiad dilynol yn 2019 fod gan y Bwrdd ymwybyddiaeth dda o godio clinigol a'i fod yn cael gwybodaeth reolaidd am berfformiad. Fodd bynnag, roedd angen rhagor o waith i wella dealltwriaeth am sut y defnyddir data sydd wedi'i godio'n glinigol.
- 30 Mae'r wybodaeth y mae'r Bwrdd yn ei chael am godio clinigol yn gyfyngedig fel rheol i'r ddau darged gan Lywodraeth Cymru yr adroddir arnynt trwy'r Adroddiad Perfformiad Integredig (gweler **paragraffau 28 a 30**). Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad yn darparu rhyw lawer o eglurhad i nodi pam fod perfformiad yn gwella neu'n gwaethygu, sut y defnyddir data wedi'i godio, na pha un a yw camau gweithredu cyfredol yn cael effaith ar wella gwasanaethau. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r Bwrdd i ddeall achosion tanberfformiad neu asesu a yw camau gweithredu cyfredol yn dwyn gwelliant.
- 31 Mae goruchwyliaeth ar godio clinigol ar lefel y Bwrdd yn aneglur. Nid yw'n glir pa bwyllgor sy'n gyfrifol am fonitro perfformiad, darparu her, a llywio gwelliant. Er bod codio clinigol weithiau'n cael ei drafod gan y Pwyllgor Digidol a Seilwath, nid yw hyn yn gyson, ac nid oes adroddiad rheolaidd sy'n canolbwyntio'n benodol ar godio clinigol.
- 32 Er bod Cynllun Blynnyddol 2025-26 yn adnabod gwella codio clinigol fel blaenoriaeth allweddol ym mhorthffolio Llunio Ein Seilwaith i'r Dyfodol y Bwrdd lechyd, nid oes cynllun gwella trosfwaol ar gyfer codio clinigol ar hyn o bryd (gweler **paragraff 33**). Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i'r Bwrdd dracio cynnydd neu gael sicrwydd yr ymdrinnir yn briodol ac yn effeithiol â materion allweddol, megis capasiti'r gweithlu, ansawdd cofnodion meddygol, ac ymgysylltu clinigol.

Ymgysylltiad clinigol

- 33 Canfu ein hadolygiad yn 2019 fod angen gwneud mwy i gynnwys staff clinigol yn y broses codio clinigol. Fe wnaethom amlygu'r angen am hyfforddiant parhaus i wella eu dealltwriaeth am godio clinigol a'u rôl o ran rhoi cymorth i sicrhau data o ansawdd da.

- 34 Nid oes rhyw lawer o dystiolaeth bod staff clinigol yn cael hyfforddiant rheolaidd ar bwysigrwydd codio clinigol na sut y mae eu cofnodion hwy'n effeithio ar ansawdd a pherfformiad codio. Nid yw staff clinigol yn cael eu cynnwys yn rheolaidd mewn gweithgareddau dilysu nac adolygu codio ychwaith, sy'n cyfyngu ar gyfleoedd i wella ansawdd data a'r modd y rhennir gwersi a ddysgwyd.
- 35 Nid oes dull eglur na chydgyssylltiedig i ategu ymgysylltiad clinigol ehangach ar draws y Bwrdd Iechyd. Er bod adleoli'r Tîm Codio Clinigol i Ysbyty Athrofaol Cymru wedi gwella amlygrwydd, cyfyngedig yw ymgysylltiad rheolaidd â gwasanaethau clinigol o hyd. Er bod peth gwaith cydweithredol cynnar yn mynd rhagddo gydag arbenigeddau unigol, megis gwasanaethau strôc, mae'r gweithgaredd hwn yn ad hoc ac fe gyfyngir arno gan gapasiti. I wneud yn siŵr y ceir ymgysylltiad strwythuredig a chynaliadwy â gwasanaethau clinigol, dylai'r tîm codio roi model partner busnes neu drefniant tebyg ar waith.

Perfformiad a gwelliant


Mae'r Bwrdd Iechyd wedi methu'n gyson â chyrraedd targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflawnder a chywirdeb codio clinigol ac mae arno angen cynllun cydgysylltiedig ar gyfer gwella a hynny fel mater o frys

Perfformiad codio clinigol

- 36 Er gwaethaf y cynnydd y mae'r Bwrdd Iechyd wedi ei wneud i ymdrin â rhai o'n hargymhellion blaenorol, nid yw'r gwelliannau i'w gweld fel pe baent wedi cael effaith amlwg ar ei berfformiad lle mae codio clinigol yn y cwestiwn.

- 37 Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu dau fesur a tharged perfformiad ar gyfer codio clinigol. Y mesur cyntaf yw bod rhaid i'r holl gyrff iechyd gwblhau codio clinigol ar gyfer pob cyfnod claf o fewn mis i ryddhau'r claf, gyda tharged o 95%. Dengys **Arddangosyn 2** nad yw'r Bwrdd Iechyd yn cyrraedd y targed hwn. Gostyngodd perfformiad ar ôl mis Tachwedd 2021 ac ers hynny mae wedi aros yn amrywiol ac yn gyson islaw'r targed a chyfartaledd Cymru.

Arddangosyn 2: canran yr holl gyfnodau a godiwyd o fewn mis i ddyddiad terfyn y cyfnod




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata Iechyd a Gofal Digidol Cymru

- 38 Yn 2024-25, roedd 30,223 o gyfnodau heb eu codio, a oedd yn 19% o'r holl gyfnodau. Erbyn mis Tachwedd 2025, roedd hyn wedi cynyddu i 34,738 o gyfnodau heb eu codio, a oedd yn 34% o'r cyfanswm. Mae hyn yn gynydd sylweddol (15%) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd y rhan fwyaf o'r cyfnodau heb eu codio mewn meddygaeth gyffredinol, bydwreigiaeth, a gwasanaethau pediatrig.

- 39 Yr ail fesur yw bod rhaid i'r holl gyrff iechyd gywiro unrhyw wallau codio erbyn yr amser y maent yn cyflwyno eu hadroddiad misol nesaf, gyda tharged o 90%. Dengys **Arddangosyn 3** fod perfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn y mesur hwn yn anghyson ac yn dal i fod ymhell islaw'r targed. Er bod gwelliannau achlysurol, nid ydynt yn cael eu cynnal ac maent fel arfer yn cael eu dilyn gan ddirywiad mawr. Rhwng mis Ebrill 2023 a mis Chwefror 2026, dim ond unwaith y cyrhaeddodd y Bwrdd Iechyd y targed ac mae ei berfformiad fel rheol islaw cyfartaledd Cymru.

Arddangosyn 3: canran y gwallau codio clinigol a gywirwyd o fewn 35 o ddiwrnodau



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata lechyd a Gofal Digidol Cymru

- 40 Mae'r rhesymau dros danberfformiad yn cael eu deall yn dda gan y Bwrdd Iechyd, ac maent yn cynnwys llawer o'r heriau a nodwyd yn gynharach, megis recriwtio a chadw, capasiti rheolwyr, ansawdd cofnodion meddygol, ac ymgysylltiad clinigol. Fodd bynnag, fel a nodwyd yn flaenorol, dylai'r Bwrdd Iechyd wneud mwy i egluro'r tanberfformiad hwn wrth y Bwrdd.

Camau gweithredu i wella perfformiad

- 41 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dangos ymrwymiad eglur i wella perfformiad codio clinigol ac mae eisoes wedi cymryd rhai camau cadarnhaol fel a nodwyd yn gynharach. Mae Cynllun Blynyddol 2025-26 hefyd yn cynnwys ymrwymiad y bydd y Bwrdd Iechyd yn datblygu Cynllun Codio Clinigol Cynaliadwy. Mae camau gweithredu arfaethedig yn cynnwys:
- datblygu cynllun ar gyfer cofnodion meddygol di-bapur;
 - newid i godio digidol yn unig ar gyfer llawdriniaethau i dynnu cataractau;
 - archwilio'r posibilrwydd o newid i opsiynau codio digidol, a
 - datblygu cynllun cynaliadwy ar gyfer y gweithlu a hyfforddiant.
- 42 Fodd bynnag, ni chanfuom unrhyw dystiolaeth bod y camau gweithredu hyn wedi cael eu dwyn ynghyd eto i greu'r un Cynllun Codio Clinigol Cynaliadwy wedi'i ddatblygu'n llawn a nodir yn y Cynllun Blynyddol. Er bod gan y tîm gynlluniau gwella ar gyfer prosiectau unigol, mae diffyg cynllun troswaol yn ei gwneud hi'n anodd deall nodau gwella byrdymor a hirdymor y gwasanaeth, y gofynion cysylltiedig o safbwynt ariannol a'r gweithlu, a sut y bydd cynnydd yn cael ei fonitro.
- 43 Ar ben hynny, mae'r rhan fwyaf o'r gwelliannau arfaethedig yn dibynnu ar fuddsoddi mewn systemau digidol. Mae Strategaeth Ddigidol pum mlynedd y Bwrdd Iechyd, sy'n cynnwys codio clinigol, wedi dyddio bellach. Er bod y strategaeth i fod i gael ei diweddarau, nid yw'r Tîm Codio Clinigol wedi bod yn rhan o hynny eto. Mae'n bwysig bod y timau digidol a chodio clinigol yn cydweithio i sicrhau bod y Strategaeth Ddigidol wedi'i diweddarau a'r Cynllun Cynaliadwyedd Codio Clinigol yn cyd-fynd â'i gilydd ac yn ategu ei gilydd.

Argymhellion

Rydym wedi gwneud chwe argymhelliad newydd, sy'n disodli'r holl argymhellion a oedd yn weddill o'r adolygiadau a gynhaliwyd gennym yn 2014 a 2019 (gweler **Atodiad 2**).

A1 I helpu i rannu gwersi, dylai'r ddau dîm codio, sydd wedi'u lleoli yn Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Athrofaol Llandochau, gynnal cyfarfodydd tîm rheolaidd. (**Paragraff 18**)

A2 Dylai'r Bwrdd Iechyd ddiweddarau ei Bolisi a Gweithdrefn Codio Clinigol, gan bwysleisio cydgyfrifoldeb am godio clinigol. Er enghraifft, trwy nodi:

- cyfrifoldebau'r tîm codio clinigol;
 - cyfrifoldebau gwasanaethau clinigol;
 - disgwyliadau ar gyfer:
 - ansawdd dogfennaeth glinigol;
 - argaeledd a thracio cofnodion meddygol;
 - defnyddio systemau megis y System Gweinyddu Cleifion;
 - hyfforddi a datblygu staff codio a chlinigol; a hefyd
 - trefniadau ymgysylltu rhwng y tîm codio a gwasanaethau.
- (**Paragraff 20**)

A3 I helpu'r Bwrdd i ddeall perfformiad codio clinigol yn well, dylai'r Bwrdd lechyd esbonio'n glir, yn yr Adroddiad Perfformiad Integredig, beth yw'r prif ffactorau sy'n effeithio ar berfformiad codio clinigol. (**Paragraff 21**)

A4 I ddangos sut y defnyddir data codio clinigol, dylai'r Bwrdd lechyd adnabod yn glir ym mhapurau'r Bwrdd a phwyllgorau pan ddefnyddiwyd data wedi'i godio i roi cymorth i gynllunio, monitro perfformiad, neu wneud penderfyniadau. (**Paragraff 21**)

A5 I gryfhau ymgysylltiad clinigol, dylai'r tîm codio gyflwyno dull partner busnes, neu fodel tebyg. (**Paragraff 26**)

A6 Dylai'r Bwrdd lechyd ddatblygu ei Gynllun Codio Clinigol Cynaliadwy i ymdrin â heriau yn awr ac yn y dyfodol. Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod y cynllun:

- wedi'i gostio, dros y tymor canolig (3-5 mlynedd), o leiaf;
- yn cael ei ategu gan gynllun y gweithlu, gan gynnwys cynllun i leihau'r defnydd o staff asiantaeth;
- yn cael ei ddatblygu gyda gwasanaethau clinigol;
- yn cyd-fynd â'r strategaeth ddigidol;
- yn cynnwys cerrig milltir a thafwybrau perfformiad eglur; ac
- yn sicrhau bod pwyllgor priodol yn cael diweddariadau rheolaidd ar gynnydd.

Dylai'r Bwrdd Iechyd hefyd sicrhau bod y Cynllun Codio Clinigol Cynaliadwy'n ymdrin â'r camau gweithredu a nodir yn Argymhellion 1-5 uchod. (**Paragraff 33**)

Atodiadau

1 Ynglŷn â'n gwaith

Cwmpas yr archwiliad

Rydym wedi asesu a yw'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol yn llawn i wella trefniadau a pherfformiad codio clinigol.

Cwestiynau a meini prawf archwilio

Cwestiynau

Fe ymdriniodd ein harchwiliad â'r cwestiynau canlynol:

- A yw'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu'r holl argymhellion a oedd yn dal yn weddill o'r Adolygiad o Godio Clinigol a gynhaliwyd yn 2014 a'r argymhelliad newydd a wnaed yn yr Adolygiad Dilynol o Godio Clinigol yn 2019?
- A oes gan y Bwrdd Iechyd gynllun a threfniadau atebolrwydd eglur i wella perfformiad codio clinigol?
- A yw perfformiad y Bwrdd Iechyd yn gwella yn erbyn targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer data sydd wedi'i godio'n amserol ac yn gywir?

Meini Prawf

Wrth gasglu tystiolaeth yn erbyn y cwestiynau uchod, roedd arnom eisiau i'r Bwrdd Iechyd ddangos:

- ei fod wedi gwneud y cynnydd disgwyledig o ran gweithredu'r argymhellion archwilio a wnaethom yn 2014 a 2019 (fel a nodir yn **Atodiad 2**) i ymdrin â'r materion a adnabuwyd yn yr archwiliadau; a
- bod ganddo gynlluniau i wella perfformiad codio clinigol.

Dulliau

Fe wnaethom ni ein gwaith archwilio rhwng mis Tachwedd 2025 a mis Chwefror 2026.

Fe wnaethom adolygu'r dogfennau allweddol canlynol:

- Cynllun Blynyddol 2025-2026;
- Strategaeth Ddigidol 5 Mlynedd;
- Adroddiadau Perfformiad Integredig;
- Dangosfyrddau perfformiad codio clinigol IGDC;
- Papurau cyhoeddus y Bwrdd;
- Papurau'r Pwyllgor Ansawdd;
- Papurau cyfarfodydd yr Uwch Dîm Arwain;
- Papurau cyhoeddus y Pwyllgor Digidol a Seilwaith;
- Papurau cyhoeddus y Pwyllgor Gwybodaeth ac Iechyd Digidol;
- Cynlluniau prosiectau a'r gweithlu codio clinigol;
- Polisiâu a gweithdrefnau; ac
- Adnoddau hyfforddiant.

Fe wnaethom gyfweld â'r canlynol:

- Prif Swyddog Gweithredu
- Rheolwr Cyfarwyddiaeth ar gyfer y Bwrdd Clinigol Diagnosteg a Therapiwteg Glinigol
- Cyfarwyddwr Gweithrediadau Diagnosteg a Therapiwteg Glinigol
- Pennaeth Codio Clinigol
- Rheolwr Codio Clinigol Cynorthwyol
- Arweinydd Clinigol ar gyfer Strôc a Niwrolegydd

Fe wnaethom hefyd hwyluso grŵp ffocws gyda detholiad o staff codio clinigol.

2 Argymhellion blaenorol

Mae'r tabl isod yn dangos cynnydd y Bwrdd lechyd yn erbyn argymhellion o'r adolygiadau a gynhaliwyd gennym yn 2014 a 2019. Mae'r holl argymhellion a oedd yn weddill o'r adolygiadau hynny wedi cael eu disodli gan argymhellion newydd ar **dudalen 19**.

Adnoddau Codio Clinigol (2019)

- A1** Datrys y trefniadau interim cyfredol trwy gytuno ar y strwythur rheoli ar gyfer codio yn dilyn ailgyflunio'r gyfarwyddiaeth, gan sicrhau bod digon o gapasiti rheoli a goruchwylio (**wedi'i gwblhau, gweler paragraff 10**).

Adnoddau Codio Clinigol (2014)

- A1** Cryfhau'r dull o reoli'r tîm codio clinigol i sicrhau y cynhyrchir data codio clinigol o ansawdd da. Dylai hyn gynnwys:
- c)** sicrhau bod capasiti i ganiatáu i godwyr band 4 fentora a gwirio gwaith codio staff band 3 yn unol â disgrifiadau swydd (**ar y gweill, gweler paragraff 15**);
 - d)** ailystyried dyrannu arbenigeddau ymhlith y staff i sicrhau bod digon o hyblygrwydd o fewn y capasiti presennol ar gyfer cyfnodau o absenoldeb a bod cynllunio olyniaeth ar waith i staff sydd i ymddeol yn ystod y pump i ddeng mlynedd nesaf (**ar y gweill, gweler paragraff 15**);
 - g)** cynyddu lefelau ymgysylltu rhwng y gwahanol dimau yn y Bwrdd lechyd i ddarparu cyfleoedd i godi materion, datblygu trefniadau cefnogi cymheiriaid a rhannu gwybodaeth (**cynnydd cyfyngedig, gweler paragraff 18**);

- h) diweddaru'r polisi codio clinigol i adlewyrchu'r trefniadau rheoli gweithrediadol presennol (**cynnydd cyfyngedig, gweler paragraff 19**), a
- k) cynyddu'r ystod o brosesau dilysu ac archwilio, gan gynnwys ystyried penodi Archwilydd Codio Clinigol achrededig (**cynnydd cyfyngedig, gweler paragraff 12**).

Cofnodion Meddygol (2014)

- A2** Gwella'r trefniadau ar gyfer cofnodion meddygol, i sicrhau y gall codio clinigol cywir ac amserol ddigwydd. Dylai hyn gynnwys:
- a) atgyfnerthu safonau Coleg Brenhinol y Meddygon (RCP) ar draws y Bwrdd Iechyd a datblygu rhaglen o archwiliadau sy'n monitro cydymffurfiaeth â safonau RCP (**cynnydd cyfyngedig, gweler paragraff 25**);
 - b) gwella cydymffurfiaeth â'r offeryn tracio cofnodion meddygol yn System Gweinyddu Cleifion (PAS) y Bwrdd Iechyd (**cynnydd cyfyngedig, gweler paragraff 26**);
 - c) rhoi camau ar waith i sicrhau bod nodiadau sydd angen eu codio yn cael eu nodi'n glir ar lefel y ward a bod staff codio clinigol yn cael mynd at y cofnodion meddygol yn gynnar, yn enwedig yn Ysbyty Athrofaol Cymru (**cynnydd cyfyngedig, gweler paragraff 24**);
 - e) lleihau nifer y cofnodion meddygol dros dro a ddefnyddir (**wedi'i gwblhau, gweler paragraff 23**);
 - f) ystyried cyflwyno digideiddio cofnodion iechyd i Uned Canser yr Arddegau i alluogi codwyr clinigol i fynd at yr wybodaeth glinigol yn haws (**wedi'i gwblhau, gweler paragraff 23**); ac
 - g) ailystyried yr hyfforddiant sydd ar gael ar bwysigrwydd cofnodion meddygol o ansawdd da i'r holl staff (**cynnydd cyfyngedig, gweler paragraff 25**).

Ymgysylltiad y Bwrdd (2014)

- A3** Ategu'r lefel dda o ymwybyddiaeth o godio clinigol yn y Bwrdd i sicrhau bod yr aelodau yn cael eu hysbysu'n llawn am berfformiad codio clinigol y Bwrdd Iechyd. Dylai hyn gynnwys:
- c) codi ymwybyddiaeth ymhlith aelodau'r Bwrdd o ddefnyddiau busnes ehangach data sydd wedi'i godio'n glinigol (**cynnydd cyfyngedig, gweler paragraff 21**).

Ymgysylltiad Clinigol (2014)

- A4** Cryfhau'r ymgysylltiad â staff meddygol i sicrhau y cydnabyddir swyddogaeth gadarnhaol meddygon yn y broses codio clinigol. Dylai hyn gynnwys:
- a) atgyfnerthu pwysigrwydd cwblhau crynodebau rhyddhau i gynorthwyo'r broses godio (**cynnydd cyfyngedig, gweler paragraff 27**);
 - b) sicrhau bod staff clinigol yn cael lefel briodol o hyfforddiant parhaus o ran proses a dibenion codio clinigol, y tu allan i'r hyfforddiant sefydlu meddygon iau cychwynnol (**cynnydd cyfyngedig, gweler paragraff 25**);
 - c) sefydlu prosesau dilysu sy'n cynnwys staff clinigol, a fydd yn gweithredu i wella ymgysylltiad clinigol a gweithredu fel math o adolygiad cywirdeb (**cynnydd cyfyngedig, gweler paragraff 25**); a
 - d) gwella 'amlygrwydd' staff codio, i sicrhau bod ymgysylltiad clinigol yn gweithredu fel proses dwy ffordd (**ar y gweill, gweler paragraff 26**).

3 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn

Term	Disgrifiad
Adroddiad Perfformiad Integredig	Adroddiad rheolaidd ar lefel y Bwrdd sy'n dwyn ynghyd wybodaeth am ansawdd, perfformiad, cyllid a'r gweithlu i ddarparu un darlun cydgysylltiedig o sut y mae'r sefydliad yn perfformio.
Cofnod Claf Electronig (EPR)	Cofnod cyfrifiadurol o iechyd a gofal claf yw hwn, sy'n disodli neu'n ategu nodiadau meddygol ar bapur.
Crynodeb rhyddhau	Dogfen glinigol a gwblheir pan fo claf yn gadael yr ysbyty, sy'n crynhoi gofal y claf yn ystod yr arhosiad hwnnw yn yr ysbyty.
Cyfnod claf	Mae cyfnod claf (neu gyfnod gofal) yn golygu cyfnod diffiniedig o driniaeth neu wasanaeth a roddwyd i glaf, sy'n dechrau ag atgyfeiriad ac yn gorffen pan gaiff ei ryddhau.
Dilysu	Y broses o wirio bod data a gofnodwyd yn gywir ac yn adlewyrchu llwybr gofal y claf.
Safonau Coleg Brenhinol y Meddygon (RCP)	Safonau proffesiynol cenedlaethol sy'n diffinio sut y dylai cofnodion cleifion gael eu strwythuro, eu cwblhau a'u cynnal i sicrhau gofal diogel o ansawdd da.
System Gweinyddu Cleifion (PAS)	System TG weinyddol graidd a ddefnyddir i gofnodi, tracio a rheoli gweithgarwch cleifion.

4 Ymateb y rheolwyr

Cyf	Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu arfaethedig	Swyddog cyfrifol (teitl)
A1	I helpu i rannu gwersi, dylai'r ddau dîm codio, sydd wedi'u lleoli yn Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Athrofaol Llandochau, gynnal cyfarfodydd tîm rheolaidd.	Bydd y Pennaeth Codio Clinigol, ochr yn ochr â chyfarfodydd tîm ar safleoedd, yn cyflwyno cyfarfodydd tîm ar y cyd. Byddant yn digwydd bob deufis, gyda chyfarfodydd yn cael eu cynnal dros MS Teams yn bennaf. Lle y bo'n ymarferol, bydd cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb bob chwe mis yn digwydd.	Mai 2026	Pennaeth Codio Clinigol
A2	Dylai'r Bwrdd Iechyd ddiweddarau ei Bolisi a Gweithdrefn Codio Clinigol, gan bwysleisio cydgyfrifoldeb am godio clinigol. Er enghraifft, trwy nodi: - cyfrifoldebau'r tîm codio clinigol; - cyfrifoldebau gwasanaethau clinigol; - disgwyliadau ar gyfer:	Bydd y Bwrdd Iechyd yn diwygio ei Bolisi a Gweithdrefn Codio Clinigol i gynnwys yr holl elfennau a nodir yn yr adroddiad. Byddir yn ymgynghori â thîm y Safonau Cenedlaethol, a bydd y polisi wedi'i ddiweddarau'n cael ei gyflwyno trwy sianeli llywodraethu sefydledig y Bwrdd Iechyd i gael ei gymeradwyo.	Gorffennaf 2026	Rheolwr y Gyfarwyddiaeth, Codio Clinigol, Nyrsio Cleifion Allanol a Gweinyddu Cleifion

Cyf	Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu arfaethedig	Swyddog cyfrifol (teitl)
	– ansawdd dogfennaeth glinigol; – argaeledd a thracio cofnodion meddygol; – defnyddio systemau megis y System Gweinyddu Cleifion; – hyfforddi a datblygu staff codio a chlinigol; a hefyd – trefniadau ymgysylltu rhwng y tîm codio a gwasanaethau			
A3	I helpu'r Bwrdd i ddeall perfformiad codio clinigol yn well, dylai'r Bwrdd lechyd esbonio'n glir, yn yr Adroddiad Perfformiad Integredig, beth yw'r prif ffactorau sy'n effeithio ar berfformiad codio clinigol.	Bydd yr Adroddiad Perfformiad Integredig yn cynnwys manylion perfformiad codio clinigol, gan gynnwys y prif ffactorau sy'n effeithio ar berfformiad codio clinigol.	Mehefin 2026	Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Diagnosteg a Therapiau Clinigol

Cyf	Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu arfaethedig	Swyddog cyfrifol (teitl)
A4	I ddangos sut y defnyddir data codio clinigol, dylai'r Bwrdd lechyd adnabod yn glir ym mhapurau'r Bwrdd a phwyllgorau pan ddefnyddiwyd data wedi'i godio i roi cymorth i gynllunio, monitro perfformiad, neu wneud penderfyniadau.	Bydd y Bwrdd lechyd yn cryfhau amlygrwydd data codio clinigol o fewn trefniadau adrodd y Bwrdd a phwyllgorau. Fel rhan o ddatblygu fframwaith perfformiad a sicrwydd 2026/27, bydd templedi adroddiadau a chanllawiau i awduron yn cael eu hadolygu i'w gwneud yn ofynnol cyfeirio'n benodol at ble y mae data codio clinigol wedi goleuo prosesau cynllunio, monitro perfformiad, gwella gwasanaethau, neu benderfynu. Bydd hyn yn cael ei roi ar waith i ddechrau trwy lwybrau adrodd corfforaethol a gweithrediadol allweddol, gyda goruchwyliaeth gan y Tîm Gweithredol, a bydd yn ategu dull mwy cyson ar draws adrannau. Bydd trefniadau'n cael eu hadolygu yn ystod 2026/27 i sicrhau bod y defnydd o wybodaeth codio clinigol yn cael ei ddangos yn rheolaidd a'i gyfleu'n glir ar lefel y Bwrdd a phwyllgorau.	Ionawr 2027	Prif Swyddog Gweithredu
A5	I gryfhau ymgysylltiad clinigol, dylai'r tîm codio gyflwyno dull partner busnes, neu fodel tebyg.	Mae'r gwasanaeth codio clinigol yn wynebu heriau sylweddol o ran y gweithlu ar hyn o bryd. Ceir dibyniaeth barhaus ar godwyr allanol, ynghyd â	Ionawr 2027	Pennaeth Codio Clinigol

Cyf	Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu arfaethedig	Swyddog cyfrifol (teitl)
		phrinder uwch godwyr clinigol yn yr adran. Oherwydd y cyfyngiadau hyn, rhaid i'r gwasanaeth gynnal model gweithrediadol canolog. Felly mae arweinyddiaeth ac ymgysylltiad â byrddau clinigol a chlinigwyr yn dod i ran yr uwch reolwyr a'r rheolwr codio, sy'n dal i arwain a chefnogi ymdrechion cydweithredol gyda thimau clinigol. Bydd yr adran yn parhau i adolygu'r dull cyfredol yn barhaus. Wrth i sefyllfa'r gweithlu wella yn y dyfodol, ceir cynlluniau i newid i fodel partner busnes. Byddai hyn yn golygu neilltuo uwch godwyr clinigol i fyrddau clinigol unigol, gan felly gryfhau ymgysylltiad a chymorth clinigol uniongyrchol. Yn seiliedig ar gynlluniau recriwtio, hyfforddi a datblygu cyfredol, mae Caerdydd a'r Fro'n annhebygol o fod â digon o uwch godwyr i roi model partner busnes ar waith yn llawn am oddeutu 18 mis. Bydd y sefyllfa hon yn cael ei hadolygu'n rheolaidd.		
A6	Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu ei Gynllun Codio Clinigol Cynaliadwy i ymdrin â heriau yn awr ac yn y	Datblygu'r Cynllun Codio Clinigol Cynaliadwy Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i ddatblygu Cynllun Codio Clinigol Cynaliadwy cynhwysfawr	Medi 2026	Cyfarwyddwr Gweithrediadau,

Cyf	Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu arfaethedig	Swyddog cyfrifol (teitl)
	dyfodol. Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod y cynllun: - wedi'i gostio, dros y tymor canolog (3-5 mlynedd), o leiaf; - yn cael ei ategu gan gynllun y gweithlu, gan gynnwys cynllun i leihau'r defnydd o staff asiantaeth; - yn cael ei ddatblygu gyda gwasanaethau clinigol; - yn cyd-fynd â'r strategaeth ddigidol; - yn cynnwys cerrig milltir a thaflwybrau perfformiad eglur; ac - yn sicrhau bod pwyllgor priodol yn cael diweddariadau rheolaidd ar gynnydd. Dylai'r Bwrdd lechyd hefyd sicrhau bod y Cynllun Codio Clinigol Cynaliadwy'n ymdrin â'r camau	ymaddasol. Bydd y cynllun hwn yn ymdrin â'r holl agweddau gofynnol. Bydd Cynllun Gweithlu Strategol ar gyfer Codio Clinigol sy'n rhychwantu cyfnod o 3-5 mlynedd yn cael ei ddatblygu ar ben hynny. Bydd y cynllun hwn ar gyfer y gweithlu'n ymgorffori modelau costio dangosol i sicrhau cynaliadwyedd a chynllunio strategol yn y dyfodol. Cyd-fynd â'r Argymhellion Bydd y Cynllun Codio Clinigol Cynaliadwy'n cael ei ddylunio fel ei fod yn cynnwys ac yn cyd-fynd â'r cynlluniau ac ymrwymadau sy'n gysylltiedig ag Argymhellion 1 i 5. Bydd yr integreiddio hwn yn sicrhau dull cydlynus, gan gysylltu'r Cynllun Codio Clinigol Cynaliadwy â mentrau presennol a mentrau sydd ar ddod yn y Bwrdd lechyd.		Diagnosteg a Therapiau Clinigol

Cyf	Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu arfaethedig	Swyddog cyfrifol (teitl)
	gweithredu a nodir yn Argymhellion 1-5 uchod.			

Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff eraill mewn llywodraeth leol, ac adrodd ar y rhain. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gefnogi'r Archwilydd Cyffredinol, ei gynghori a monitro ei waith.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt y rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and
telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a
galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.